Cyngor Sir Caerfyrddin
Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff

Polisi Rheoli Gwastraff

Medi 2026

carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

1. Pwrpas a chwmpas

2. Cyd-destun Strategol

3. Casgliadau o Dŷ i Dŷ

3.1.1 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân

3.1.2 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân (Cynwysyddion)

3.1.3 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Ystyriaethau Ychwanegol

3.1.4 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Dosbarthu Cynwysyddion

3.1.5 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Cynwysyddion newydd, coll neu wedi'u difrodi

3.2.1 Deunydd Ailgylchu Cymysg - (Bagiau Glas)

3.2.2 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Cynwysyddion

3.2.3 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Ystyriaethau Ychwanegol

3.2.4 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Dosbarthu Cynwysyddion

3.2.5 Cynwysyddion ychwanegol, newydd, coll neu wedi'u difrodi

4. Gwasanaethau Pellach - Casgliadau Gwastraff o Dŷ i Dŷ

4.1 Ailgylchu gwydr

4.2 Ailgylchu Bwyd

4.3 Gwasanaeth Gwastraff Gardd

4.4 Casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol a Chewynnau Tafladwy Plant (Tanysgrifiad)

4.5 Casgliadau gwastraff gweddilliol

5. Amrywiadau o ran cynwysyddion

5.1 Atebion cynwysyddion eraill

5.2 Bin Sbwriel a Whilfin

5.2.1 Bin Sbwriel Safonol

5.2.2 Whilfin

6. Rhoi gwastraff allan a'i gasglu

7. Casgliadau Gwastraff Swmpus (Codir tâl)

7.1.1 Gwneud Cais am Gasgliad Gwastraff Swmpus

7.1.2 Canslo ac Ad-daliadau

8. Casgliadau â Chymorth

9. Casgliadau dros Wyliau Banc

10. Gwastraff heb ei gasglu a tharfu

11. Datblygiadau Tai a Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu

11.1.1 Lonydd Cefn a Lonydd sy'n Bell o Ben yr Heol

11.1.2 Lonydd a Heolydd Preifat

11.1.3 Lonydd a Gynhelir ar y Briffordd

11.1.4 Ceir wedi'u parcio

12.Amgylchiadau Arbennig – eithriadau

12.1.1 Teuluoedd Mawr a Phreswylwyr ag Anghenion Meddygol

12.1.2 Lludw Gweddillion Tân

12.1.3 Gwaredu Gwastraff Anifeiliaid Anwes a Gwastraff Hylendid Benywaidd

13.Halogi Bagiau/Sachau, Defnydd Anghywir o Gynwysyddion a Rhoi Gwastraff Allan ar y Diwrnod Anghywir

13.1Y Broses Addysg a Gorfodi

14. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
    - 14.1 Prawf o Breswyliaeth
    - 14.2 Cynllun Hawlen
    - 14.3 Trelars
    - 14.4 Didoli Bagiau Du
    - 14.5 Ailgylchu Bagiau/Sachau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
    - 14.6 Plastrfwrdd ac Asbestos
    - 14.7 Oergelloedd a Rhewgelloedd
    - 14.8 Gwastraff Peryglus ac Offer Trydan
    - 14.9 Gwastraff na ellir ei dderbyn
    - 14.10 Elusennau a Sefydliadau Di-elw
    - 14.11 Eithriadau
    - 14.12 Mannau Rhoi Eitemau
    - 14.13 Cymorth gan staff y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref

15. Safleoedd sy'n destun Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a chyfleusterau llety gwyliau eraill sy'n cael eu rhentu er budd ariannol.
    - 15.1 Llety gwyliau, Airbnb
    - 15.2 Mannau Addoli a Mynwentydd
    - 15.3 Elusennau
    - 15.4 Cartrefi Plant, Cartrefi Gofal a Llety Byw â Chymorth

16. Telerau ac Amodau ac Atodiadau
    - 16.1 Atodiad 1 – Telerau ac Amodau Cynnyrch Hylendid Amsugnol
    - 16.2 Atodiad 2 – Map o'r Broses Addysg a Gorfodi

Cyngor Sir Caerfyrddin

Polisi Rheoli Gwastraff – Awst 2026

1. Pwrpas a Chwmpas

Mae'r Polisi Rheoli Gwastraff hwn yn nodi dull Cyngor Sir Caerfyrddin o gasglu, trin, ailgylchu a gwaredu gwastraff domestig ar gyfer oddeutu **92,000 o aelwydydd** o fewn ei ffin unedol. Mae'n diffinio:

- Y gwasanaethau a ddarperir
- Cyfrifoldebau preswylwyr
- Safonau gweithredol
- Prosesau gorfodi
- Eithriadau a gwasanaethau arbennig

Mae'r polisi yn berthnasol i bob cartref domestig o fewn y ffin unedol ac mae'n cefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru gan gynnwys *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a *Mwy nag Ailgylchu*. Mae hefyd yn berthnasol i'r safleoedd hynny y mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 yn effeithio arnynt.

Mae'r cyngor yn darparu pedair Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, sy'n cael eu cynnal gan gwmni TECHAL sy'n eiddo i'r cyngor, Cwm Environmental Ltd. Mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli'n strategol yn y sir at ddiben gwaredu gwastraff y cartref. Mae Cwm Environmental Ltd yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau Ailgylchu yn ddyddiol, gan gynnwys sypynnu, didoli a dosbarthu gwastraff sy'n cael ei gasglu wrth ymyl y ffordd yn Sir Gaerfyrddin, i'w ailbrosesu ac i sicrhau bod y gwastraff domestig a gynhyrchir yn y sir yn cael ei ailddefnyddio a'i ailgylchu i'r eithaf. Mae yna hefyd rwydwaith bach o safleoedd casglu ledled y sir i wasanaethu unrhyw ailgylchu domestig ychwanegol o boteli gwydr a jariau, ynghyd â banciau ar gyfer eitemau trydan bach a thecstilau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Cwm Environmental Ltd yn gyfrifol am Ganolfan Eto, prosiect economi gylchol sy'n sicrhau bod eitemau'n cael eu defnyddio cyhyd â phosibl, gan leihau'r angen am ddeunyddiau crai wrth gynhyrchu nwyddau newydd. Mae Cwm Environmental Ltd yn rheoli Canolfan Eto fel siop ar gyfer eitemau wedi'u hailddefnyddio, eu hatgyweirio a'u hail-bwrpasu, er mwyn i holl breswylwyr Sir Gaerfyrddin fodloni egwyddorion economi gylchol, gan sicrhau bod deunyddiau gwastraff yn cael eu defnyddio cyhyd â phosibl.

2.Cyd-destun Strategol

Glasbrint Casgliadau
Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Glasbrint Casgliadau gan argymell proffil gwasanaeth ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd, yn enwedig casglu deunyddiau ailgylchu sych ar wahân bob wythnos, casglu gwastraff bwyd bob wythnos, defnyddio cerbydau aml-adran ar gyfer casglu deunyddiau ailgylchu sych a gwastraff bwyd drwy basio unwaith a chasglu gwastraff gweddilliol yn llai aml. Ym mis Mehefin 2025, diweddarwyd y Glasbrint hwn i ddarparu canllawiau arfer gorau i awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau ailgylchu mwy cynaliadwy, cost-effeithiol ac o ansawdd uchel. Mae'r dull graddol yn rhan o ymrwymiad Sir Gaerfyrddin i symud i'r fethodoleg gasglu hon.

Nod y Cyngor yw:

- Gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu a bodloni ei rwymedigaethau ailgylchu statudol trwy addysgu preswylwyr ar y gwahanol wasanaethau gwastraff a ddarperir gan yr Awdurdod.
- Dechrau a chefnogi newid ymddygiad sy'n hyrwyddo ailddefnyddio ac ailgylchu trwy gyfathrebu digidol a chyfryngau eraill.
- Cefnogi mentrau economi gylchol.
- Lleihau gwastraff gweddilliol a gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Cyfrannu at ymrwymiadau'r Cyngor o ran yr **Hinsawdd a'r Argyfwng Natur** drwy leihau allyriadau carbon, diogelu adnoddau naturiol a hyrwyddo defnydd mwy cynaliadwy.
- Cefnogi cyflawni **blaenoriaethau Strategol Corfforaethol** y Cyngor, gan gynnwys creu Sir Gaerfyrddin lanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy.

Alinio â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** drwy fabwysiadu dull hirdymor o reoli gwastraff, atal gwastraff, hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a gwella llesiant amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Fel un o'r cynghorau olaf yng Nghymru i fabwysiadu Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru yn llawn, mae'n bwysig i ni alinio â'r model i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff cadarn a chyson sy'n perfformio'n dda. Dangosir ar draws Cymru bod y Glasbrint yn cyflawni graddau ailgylchu uchel, yn gwella ansawdd y deunyddiau ailgylchu a gesglir, ac yn cefnogi targedau cenedlaethol ar gyfer economi gylchol wrth ddarparu buddion amgylcheddol ac ariannol hirdymor.

Bydd mabwysiadu'r Glasbrint Casgliadau hefyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor i bolisi ac arfer gorau Llywodraeth Cymru, gan helpu i ddiogelu gwasanaethau gwastraff i'r dyfodol, gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau, a sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gwasanaeth sy'n debyg i'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru.

3. Casgliadau o Dŷ i Dŷ

Mae gwastraff yn cael ei gasglu o dŷ i dŷ drwy ddefnyddio staff a cherbydau mewnol. Rhaid i breswylwyr wneud yn siŵr bod deunyddiau ailgylchu **yn lân, yn sych ac wedi'u gwasgu**. Ni fydd sachau/bagiau halogedig yn cael eu casglu a rhoddir gwybod i breswylwyr drwy sticer neu dag ar eu cynhwysydd. Dim ond ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ y gellir defnyddio cynwysyddion ailgylchu. Ni ddylid defnyddio'r cynwysyddion at unrhyw beth arall heblaw am y diben a nodwyd gan y cyngor.

Y cynllun hirdymor yw y bydd yr holl breswylwyr yn symud i wasanaeth wythnosol ailgylchu ar wahân dros y blynyddoedd nesaf ac y bydd bagiau glas cymysg yn cael eu diddymu'n raddol.

3.1.1 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân

Gwasanaeth **wythnosol** ar gyfer deunydd ailgylchu ar wahân:

- Papur – Sach las
- Cardbord – Sach oren
- Metelau – Sach goch
- Plastigion - Sach goch
- Cartonau – Sach goch
- Ffilm, bagiau plastig a deunydd lapio - Bag plastig coch
- Batris cartref – Sach wen
- Gwydr - Bocs du
- Bwyd gwastraff - bwyd bin allanol 23L

3.1.2 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân (Cynwysyddion)

Dylech gynnwys:

- Sach las 40L, sy'n gallu cael ei ailddefnyddio, ar gyfer papur
- Sach goch 90L, sy'n gallu cael ei hailddefnyddio, ar gyfer plastigion/caniau/cartonau
- Bag plastig coch 30L, gyda dolenni clymu, ar gyfer ffilm, bagiau plastig a deunydd lapio
- Sach oren 90L, sy'n gallu cael ei hailddefnyddio, ar gyfer cardbord
- Bag bach gwyn, sy'n gallu cael ei ailddefnyddio, ar gyfer batris cartref
- Bagiau leinio gwastraff bwyd
- Bin bwyd allanol 23L + cadi cegin mewnol 7L
- Bocs gwydr 43L

Mae'r sachau glas, coch ac oren yn cynnwys pwysau 1kg i'w hatal rhag chwythu i ffwrdd yn y gwynt. Bydd preswylwyr yn cael eu hannog i roi eu cyfeiriad yn yr adran berthnasol ar y caead, er mwyn helpu'r criw casglu i ddychwelyd y sachau cywir ar ôl y casgliad.

3.1.3 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Ystyriaethau ychwanegol

- Sach 90L aml-adran sy'n gallu cael ei hailddefnyddio (ar gais ac ar ôl adolygu'r aelwydydd nad ydynt yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff)
- Mae'n rhaid i aelwydydd sy'n derbyn 1 rholyn o fagiau plastig coch (56 bag mewn rholyn) ar gyfer ailgylchu ffilm, bagiau plastig a deunydd lapio sicrhau bod y bag wedi'i glymu a'i roi yn y sach goch sy'n gallu cael ei hailddefnyddio ar y diwrnod y casglu ac nid ar wahân ar ymyl y ffordd, i'w hatal rhag chwythu i ffwrdd yn y gwynt. Ar gyfer y preswylwyr hynny sydd â sachau aml-adran gwyrdd sy'n gallu cael eu hailddefnyddio, gellir rhoi'r bag coch yn adran plastigion y sach.

3.1.4 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Dosbarthu cynwysyddion

- I ddechrau, bydd preswylydd sy'n cael y gwasanaeth ailgylchu a gesglir ar wahân yn cael sachau sy'n gallu cael eu hailddefnyddio ar gyfer papur, cardbord, plastigion/caniau a sachau batris i'w hailddefnyddio yn ystod eu casgliadau wythnosol ynghyd ag 1 rholyn o fagiau plastig coch (56 bag) ar gyfer ffilm plastig a deunydd lapio a 3 rholyn o fagiau leinio gwastraff bwyd (156 bag).

- Bydd preswylwyr sydd angen mwy nag un sach ar gyfer ailgylchu yn gallu cael cynhwysydd ychwanegol, ar gais. Bydd angen iddynt nodi ar gyfer pa eitem y mae angen hyn ac efallai y bydd Ymgynghorydd Ailgylchu yn cysylltu i gadarnhau'r angen.

3.1.5 Deunydd Ailgylchu a Gesglir ar Wahân - Cynwysyddion newydd, coll neu wedi'u difrodi

- Ar ôl dosbarthu'r sachau bagiau leinio gwastraff bwyd a bagiau plastig coch cychwynnol, bydd unrhyw ddosbarthiadau pellach yn cael eu gwneud drwy gais ar-lein neu glicio a chasglu ar gyfer bagiau leinio gwastraff bwyd 7L a bagiau plastig coch.
- Gall preswylwyr hefyd ofyn am ragor o fagiau leinio gwastraff bwyd 7L drwy glymu bag ar ddolen eu bocs bwyd ar y diwrnod casglu.
- Gellir archebu pob cynhwysydd arall fel y cadi cegin mewnol, bocs bwyd allanol a bocsys gwydr ar-lein. Bydd rhybudd yn cael ei roi wrth ail-archebu cynwysyddion (heblaw bagiau gwastraff hylendid) i sicrhau nad yw'r cynwysyddion yn cael eu camddefnyddio. Bydd preswylwyr sydd angen mwy na'r nifer dynodedig o fagiau/sachau y flwyddyn yn cael eu hasesu fesul achos.

  Y terfynau yw:

Bagiau leinio bin bwyd 7L – ar gyfer y cadi bwyd cegin	6 rholyn mewn cyfnod 12 mis
Bagiau leinio bin bwyd 23L – ar gyfer y bin bwyd allanol	2 rolyn mewn cyfnod 12 mis

Sach las 40L	1 sach mewn cyfnod 12 mis
Sach oren 90L	1 sach mewn cyfnod 12 mis
Sach goch 90L	1 sach mewn cyfnod 12 mis
Bag plastig coch 30L	2 rolyn mewn cyfnod 12 mis
Sach wen ar gyfer batris	2 sach mewn cyfnod 12 mis
Cadi cegin 5L	3 uned mewn cyfnod 12 mis
Bin bwyd allanol 23L	3 uned mewn cyfnod 12 mis
Bocs gwydr 44L	2 uned mewn cyfnod 12 mis
Sach aml-adran werdd	1 sach mewn cyfnod 12 mis

- Mae pob cais yn cael ei fonitro ac mae'n bosibl y bydd Ymgynghorydd Ailgylchu yn cysylltu neu'n ymweld â phreswylwyr sy'n archebu mwy na'r terfyn.

3.2.1 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas)

Gwasanaeth **wythnosol** ar gyfer
- deunydd ailgylchu cymysg sych
- Gwastraff bwyd

Gwasanaeth **bob tair wythnos** ar gyfer
- Poteli a jariau gwydr

3.2.2 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Cynwysyddion
Yn cynnwys:
- Bagiau ailgylchu glas 60L
- Bagiau leinio gwastraff bwyd
- Bin bwyd allanol 23L + cadi cegin mewnol 7L
- Bocs gwydr 43L

3.2.3 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Ystyriaethau Ychwanegol
- Gellir pacio bocsys cardbord mawr yn fflat ac yn ddiogel o fewn, o dan neu ochr yn ochr â'r bagiau glas.

- Gall aelwydydd barhau i roi nifer diderfyn o fagiau glas allan i'w casglu yn eu man casglu arferol wrth ymyl y ffordd. Dim ond bagiau glas a ddarparwyd gan y cyngor y gellir eu defnyddio i gasglu'r deunyddiau ailgylchu sych hyn.

- Gall preswylwyr â theuluoedd mawr (6 unigolyn neu fwy) a/neu'r rhai sydd ag anghenion meddygol gael eu heithrio o'r terfynau bagiau/bagiau leinio ychwanegol yn dilyn ymweliad Ymgynghorydd Ailgylchu Cymunedol i gynnal adolygiad.

3.2.4 Deunydd Ailgylchu Cymysg (Bagiau Glas) - Dosbarthu Cynwysyddion

- Bydd aelwydydd sydd ar y cynllun Bagiau Glas yn gymwys i gael dosbarthiadau blynyddol o 3 rholyn o fagiau glas 60L (156 bag), 3 rholyn o fagiau leinio gwastraff bwyd (156 bag) ac i leiafrif bach sy'n cael cymorth i godi sbwriel neu sydd ar lwybrau cerbydau â chawell, 1 rholyn o fagiau leinio bin bwyd allanol 23L (52 bag) ar gyfer y bin bwyd allanol. Bydd y rhain yn dechrau bob hydref i breswylwyr yn yr ardaloedd sydd yn y cynllun bagiau glas, hyd nes bod y preswylwyr yn symud i'r cynllun casgliadau ar wahân.

- Gallwch chi ddychwelyd bagiau glas sydd dros ben i unrhyw un o brif Ganolfannau HWB y Cyngor yng Nghaerfyrddin, Llanelli neu Rydaman.

3.2.5 Cynwysyddion ychwanegol, newydd, coll neu wedi'u difrodi

- Gall aelwydydd yn ardaloedd y cynllun ailgylchu cymysg (bagiau glas) archebu eu cynwysyddion, bagiau glas a bagiau leinio gwastraff bwyd ar-lein neu drwy glicio a chasglu yn un o ganolfannau hwb ein tair prif dref

- Gellir archebu cynwysyddion newydd hefyd drwy ffonio ein canolfan gyswllt ar 01267 234567.

- Bydd rhybuddion ail-archebu yn cael eu gosod ar gynwysyddion i atal eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall heblaw ailgylchu. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Bydd Swyddog Gwastraff yn cysylltu ag aelwydydd sy'n archebu gormod, neu bydd Warden Ailgylchu Cymunedol yn ymweld â nhw.

- Bydd rhybudd yn cael ei roi wrth ail-archebu cynwysyddion (heblaw bagiau gwastraff hylendid) i sicrhau nad yw'r cynwysyddion yn cael eu camddefnyddio. Bydd preswylwyr sydd angen mwy na'r nifer a ddyrennir o fagiau/sachau y flwyddyn yn cael eu hasesu fesul achos.
  Y terfynau yw:

Bagiau glas 60L – Ailgylchu cymysg	6 rholyn mewn cyfnod 12 mis
Bagiau leinio bin bwyd 7L – ar gyfer y cadi bwyd cegin	6 rholyn mewn cyfnod 12 mis
Bagiau leinio bin bwyd 23L – ar gyfer y bin bwyd allanol	2 rolyn mewn cyfnod 12 mis
Cadi cegin 5L	3 uned mewn cyfnod 12 mis
Bin bwyd 23L i'w roi allan wrth ymyl y ffordd	3 uned mewn cyfnod 12 mis
Bocs gwydr 44L	2 uned mewn cyfnod 12 mis

Mae'r holl geisiadau yn cael eu monitro, ac mae'n bosibl y bydd Ymgynghorydd Ailgylchu yn cysylltu neu'n ymweld â phreswylwyr sy'n archebu cynwysyddion dros y terfyn.

4. Gwasanaethau Pellach - Casgliadau o Dŷ i Dŷ

4.1 Ailgylchu Gwydr

- Mae hwn yn wasanaeth **wythnosol** yn yr ardaloedd hynny y mae deunydd ailgylchu yn cael eu casglu mewn sachau ar wahân **Ardaloedd deunydd ailgylchu a gesglir ar wahân**.

- Mae casgliadau'n digwydd bob **3 wythnos** yn yr ardaloedd hynny y mae deunydd ailgylchu'n cael ei gasglu mewn **bagiau ailgylchu glas**.

Mae eitemau gwydr a gesglir yn cynnwys:

- Poteli gwydr, fel poteli cwrw, gwin a diodydd meddal
- Jariau gwydr, fel jariau bwydydd babanod a sawsiau
- Poteli a jariau gwydr nad ydynt ar gyfer bwyd a diod, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer persawr, persawr eillio ac eli wyneb

I ddechrau bydd bocsys yn cael eu rhoi i bob aelwyd, ac os bydd angen un newydd oherwydd colled neu ddifrod bydd cofnodion yn cael eu cadw o'r ceisiadau dilynol. Mae cynwysyddion newydd ar gael drwy lenwi ffurflen 'gwneud cais am eitem ailgylchu' ar-lein.

Dim ond gwydr mewn bocsys a ddarperir gan y cyngor fydd yn cael ei gasglu, a dim ond **un** bocs gwydr sy'n gallu cael ei roi allan i'w gasglu fesul aelwyd. Ni ddylid defnyddio'r bocs gwydr at unrhyw ddiben arall heblaw am y diben a fwriadwyd o ailgylchu poteli gwydr a jariau. Ni dderbynnir gwydr sydd wedi torri yn y bocs gwydr am resymau iechyd a diogelwch. Os yw'r bocs gwydr yn orlawn neu'n cynnwys gwydr mewn bag, ni fyddwn yn ei gasglu. Ni fydd paenau ffenestri, gwydr gwrthsefyll gwres (e.e. Pyrex) neu wydr o waith adeiladu/adfer yn cael eu casglu. Derbynnir y mathau hyn o ddeunyddiau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Bydd halogiad neu roi'r bocs allan ar y diwrnod casglu anghywir yn golygu na fydd yn cael ei gasglu; bydd sticer yn cael ei roi ar y bocs a bydd cofnod yn cael ei gadw. Wedyn bydd proses addysg a gorfodi gynhwysfawr yn dechrau i gynorthwyo preswylwyr i gyfrannu'n llawn i'r cynllun ailgylchu.

Cyfrifoldeb y preswylydd yw:

- Gwneud yn siŵr bod poteli a jariau gwydr wedi'u gwagio a'u rinsio
- Rhoi potelu a jariau gwydr yn y bocs yn rhydd, nid mewn bagiau plastig.
- Peidio â gorlenwi'r bocs neu roi unrhyw wydr ychwanegol allan.
- Rhoi'r bocs yn y man casglu cyn 6am ar y diwrnod casglu.
- Casglu'r bocs o'r man casglu ar ôl i ni ei wagio
- Cadw'r bocs yn lân

Oherwydd materion mynediad, ni fydd nifer fach o aelwydydd yn gallu bod yn rhan o'r cynllun casglu gwydr o dŷ i dŷ a gofynnir iddynt fynd â'u gwydr i'w safle casglu lleol neu Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Y bwriad yw symud cynifer o aelwydydd â phosibl i gasgliadau gwydr o dŷ i dŷ wrth i ni symud tuag at gasgliadau ar wahân ar draws yr Awdurdod.

4.2 Ailgylchu Bwyd

Casgliad wythnosol yw hyn drwy ddefnyddio biniau bwyd allanol a chadis cegin a ddarperir gan y Cyngor.

Mae'r math o ddeunydd a dderbynnir yn cynnwys:

- Yr holl fwyd amrwd a bwyd wedi'i goginio gan gynnwys gweddillion bwyd, a philion llysiau
- Cig, pysgod, gan gynnwys esgyrn, cregyn bwyd môr, plisgyn wyau
- Bagiau te a gwaddodion coffi
- Gwastraff bwyd anifeiliaid anwes

Dylai preswylwyr sicrhau bod y caead ar y cynhwysydd ar gau a bod y ddolen wedi'i chau'n sownd i atal llygod ac anifeiliaid rhag agor y caead. Dylai preswylwyr sicrhau bod y bwyd bin allanol yn cael ei gadw'n lân. Ni fydd unrhyw finiau sy'n cynnwys hylifau, sy'n frwnt iawn, neu sydd wedi'u halogi â deunyddiau nad ydynt yn fwyd yn cael eu casglu. Ni fydd biniau bwyd sy'n cael eu rhoi allan ar y diwrnod casglu anghywir yn cael eu casglu chwaith.

Cyfrifoldeb y preswylydd yw:

- rhoi gwastraff bwyd yn y bagiau leinio a ddarperir a'u rhoi allan i'w casglu yn y bin gwastraff bwyd 23 litr.
- Peidio â gorlenwi'r bin a sicrhau bod y caead wedi'i gau'n iawn drwy blygu'r ddolen i lawr yn llawn i gloi'r caead yn sownd i atal gwastraff rhag gollwng.
- Rhoi'r bin yn y man casglu cyn 6am ar y diwrnod casglu
- Casglu'r bin o'r man casglu ar ôl i ni ei wagio
- Golchi'r bin ar ôl y casgliad i gael gwared ag unrhyw weddillion bwyd a chadw'r bin bwyd yn lân

Gall preswylwyr roi mwy nag un bin gwastraff bwyd allan i'w gasglu. Dim ond ar gyfer casglu gwastraff bwyd o dŷ i dŷ y dylid defnyddio cadis cegin mewnol, biniau bwyd allanol a bagiau leinio ac nid at unrhyw ddiben arall. Os oes angen cynwysyddion ychwanegol ar breswylydd, darllenwch adran 3.2.5

Bagiau leinio plastig mawr clir 23L ar gyfer y bin bwyd allanol (yn gyfyngedig i aelwydydd ar heolydd anodd eu cyrraedd a'r rhai sy'n cael gwasanaeth gan gerbyd â chawell)

4.3 Gwasanaeth Gwastraff Gardd

Mae hwn yn gasgliad **bob pythefnos** drwy ddefnyddio whilfin 240 litr a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gwasanaeth gwastraff gardd yn wasanaeth **tanysgrifio blynyddol y telir amdano** a chaiff ei gasglu rhwng mis Chwefror a dechrau mis Rhagfyr. Bydd angen i breswylwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf dalu'r tanysgrifiad blynyddol a phrynu biniau gwastraff gardd (gan gynnwys unrhyw finiau dilynol). Dim ond y ffi danysgrifio y bydd yn rhaid i breswylwyr ei thalu os oes ganddynt fin gwastraff gardd y cyngor eisoes. Bydd angen prynu unrhyw finiau ychwanegol.

Bydd preswylwyr sy'n cofrestru ar gyfer y gwasanaeth yn cael manylion am eu diwrnod casglu.

Mae modd talu am y flwyddyn neu drwy ddebyd uniongyrchol misol dros 6 thaliad misol.

Ar ôl i'r casgliadau ddechrau, ni fydd ad-daliad yn cael ei roi os bydd preswylydd yn gadael ran o'r ffordd drwy'r tymor am unrhyw reswm.

Mae dogfen telerau ac amodau gynhwysfawr (adran 8) yn rhoi canllaw i ddarpariaeth y gwasanaeth gwastraff gardd.

Bydd cyfyngiad o 5 bin gwastraff gardd fesul aelwyd. Ar gyfer pob bin ychwanegol mae gostyngiad o 10%.

Gall cwsmeriaid roi gwybod am fin gwastraff gardd sydd wedi'i ddifrodi drwy fynd i Gwastraff gardd - Cyngor Sir Caerfyrddin neu drwy ffonio'r ganolfan gyswllt ar 01267 234567. Ar ôl i adroddiad ddod i law, bydd yn cael ei gyfeirio at y swyddogion perthnasol lle bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i bennu a achoswyd unrhyw ddifrod i fin gan ein cerbydau, y criw casglu neu'r cwsmer. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu gwneud drwy adolygu'r system camerâu ar y cerbydau casglu. Os achoswyd y difrod gan ein criw neu ein cerbyd, byddwn yn trefnu i gasglu'r bin sydd wedi'i ddifrodi ac yn darparu bin newydd. Os achoswyd y difrod gan y preswylydd, bydd y gwasanaethau gwastraff yn anfon e-bost at y cwsmer yn amlinellu'r canlyniad ac yn ei gyfeirio at y dudalen danysgrifio i brynu bin newydd.

4.4 Casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol a Chewynnau Tafladwy Plant (Tanysgrifiad)

Ystyr Gwastraff Annymunol (fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012) yw:

- Gwastraff nad yw'n wastraff clinigol;
- Gwastraff sy'n cynnwys hylifau'r corff, secretiadau neu ysgarthiadau o'r corff a;
- Gwastraff lle nad yw'r broses o'i gasglu a'i waredu yn destun gofynion arbennig er mwyn atal heintiau.

Mae casgliadau cewynnau a gwastraff hylendid yn gallu derbyn y mathau canlynol o wastraff:

- Padelli gwelyau tafladwy a leininau, padiau anymatal, padiau cadair a gwely
- Bagiau stoma/colostomi, bagiau cathetr a photeli wrin
- Menig plastig a ffedogau tafladwy
- Cewynnau gan gynnwys unrhyw fagiau a weips

Mae hwn yn wasanaeth tanysgrifio **bob pythefnos am ddim** sydd ar gael drwy gofrestru ar ein gwefan. Bydd preswylwyr yn cael cyflenwad o 6 rholyn o fagiau porffor. Rhaid rhoi'r bagiau allan i'w casglu ar y diwrnod casglu perthnasol. Gall cwsmeriaid gwastraff

hylendid hefyd ofyn am whilfin porffor â chaead 240 neu 360L i storio eu gwastraff. Ni fydd y rhai sy'n cael y gwasanaeth cewynnau yn unig yn gymwys i gael whilfiniau.

Ni ellir rhoi cynnyrch hylendid amsugnol mewn unrhyw fag heblaw'r bagiau sydd wedi'u darparu neu na fydd y gwastraff yn cael ei gasglu. Os bydd bagiau porffor yn cael eu defnyddio'n barhaus ar gyfer unrhyw wastraff heblaw gwastraff hylendid (fel y rhestrir ar wefan y cyngor), bydd sticeri'n cael eu rhoi ar y bag i roi gwybod i'r preswylydd bod problem. Bydd Ymgynghorydd Ailgylchu Cymunedol yn ymweld ag unrhyw aelwyd sy'n defnyddio'r bagiau cynnyrch hylendid amsugnol ar gyfer gwastraff cyffredinol, a fydd yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd cywir o'r bagiau. Byddant yn rhoi cyngor ac arweiniad ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth ac yn esbonio unrhyw achosion o dorri'r rheolau. Bydd unrhyw achosion pellach o dorri'r rheolau yn dilyn proses addysg a gorfodi yr adain gwastraff.

Gellir dod o hyd i ddogfen telerau ac amodau gynhwysfawr yn: Atodiad 1

4.5 Casgliadau gwastraff gweddilliol

Mae adran 46(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd yn caniatáu i gynghorau bennu'r math a'r nifer o gynwysyddion y mae rhaid i aelwydydd eu defnyddio ar gyfer casgliadau gwastraff. Ar y sail hon mae'r awdurdod yn caniatáu uchafswm o **dri bag du bob tair wythnos** gydag uchafswm capasiti o 60L y bag. Ni fydd bagiau mawr (megis bagiau leinio whilfiniau) yn cael eu casglu. Yn yr un modd, ni fydd bagiau trwm iawn yn cael eu casglu gan fod rhaid eu codi i'r cerbyd casglu ac mae rhaid cadw at ganllawiau codi a chario.

Dylai bagiau ar gyfer gwastraff gweddilliol fod yn ddu o ran lliw a dylai'r preswylydd eu darparu.

Nid yw'r Cyngor yn darparu bagiau du i breswylwyr.

Caniateir i aelwydydd roi hyd at dri bag du o wastraff gweddilliol allan i'w casglu bob tair wythnos, sy'n cyfateb i 180 litr o gapasiti.

Rhaid rhoi'r holl wastraff gweddilliol mewn bagiau du yn unig, ni fydd gwastraff gweddilliol mewn unrhyw fagiau lliw arall yn cael ei gasglu. Ni fydd eitemau domestig mawr a roddir ochr yn ochr â bagiau du ar gyfer casgliadau gwastraff gweddilliol yn cael eu casglu. Bydd angen i breswylwyr naill ai trefnu casgliad gwastraff swmpus neu fynd â'r gwastraff i'w Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol.

Ni chaniateir gwastraff ochr, a dim ond bagiau du fydd yn cael eu casglu ar ddiwrnodau casglu gwastraff gweddilliol.

Gellir defnyddio whilfiniau er mwyn storio bagiau ond rhaid eu tynnu a'u rhoi allan ar ymyl y ffordd i'w casglu. Ni fydd y criw casglu gwastraff yn casglu o whilfiniau na chynwysyddion eraill sydd heb eu darparu gan y cyngor.

Os ydynt yn defnyddio bin sbwriel 90L, gall preswylwyr naill ai tynnu'r bagiau allan i'w rhoi yn eu man casglu arferol wrth ymyl y ffordd neu adael eu bagiau yn y bin sbwriel i'r criwiau eu casglu. Rhaid i fagiau gwastraff fod yn llai na 60 litr gan na fydd y criw yn casglu bagiau trwm a mawr sy'n anodd eu codi.

Ni chesglir bagiau sy'n cynnwys symiau mawr o wydr wedi torri a deunyddiau DIY neu unrhyw fagiau sydd â deunyddiau a allai fod yn risg i Iechyd a Diogelwch i'n criwiau.

Ni fydd unrhyw eitemau ailgylchu yn y casgliad gwastraff gweddilliol neu wastraff bagiau du gweddilliol a roddir allan ar y diwrnod casglu anghywir, neu fwy na'r nifer a ganiateir, yn cael eu casglu. Bydd sticer yn cael ei roi ar y bag a bydd cofnod yn cael ei wneud. Bydd hyn yn dechrau'r broses addysg a gorfodi yn unol ag adran 5.

5. Amrywiadau o ran cynwysyddion

5.1 Atebion Cynwysyddion Eraill

- Ar gyfer rhai lleoliadau e.e. fflatiau ac eiddo sy'n anodd eu cyrraedd, lle mae mannau casglu penodol wedi'u nodi gan y Cyngor, bydd cynwysyddion gwastraff priodol yn cael eu darparu i fodloni gofynion gweithredol ac amgylcheddol at ddiben storio deunyddiau gwastraff. Bydd y mathau o gynwysyddion yn cael eu diffinio gan y Cyngor, fel y nodir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

5.2 Biniau Sbwriel a Whilfiniau

5.2.1 Biniau sbwriel safonol

Gall preswylwyr ddefnyddio bin sbwriel i storio eu bagiau wrth ymyl y ffordd. Rhaid i'r bin(iau) fod o faint safonol (80-90 litr) a rhaid i'r preswylydd roi ei wastraff yn y bagiau a ragnodir ar gyfer y casgliad h.y. bagiau du, glas neu borffor. Dylid clymu bagiau sbwriel neu ailgylchu a'u rhoi o fewn y biniau sbwriel safonol hyn. Byddant yn cael eu gwagio gan y criwiau sbwriel neu ailgylchu ar y diwrnod casglu a'u gadael yn y pwynt casglu arferol wrth ymyl y ffordd.

Ni fydd yr Awdurdod yn cyflenwi nac yn disodli unrhyw finiau sbwriel sydd wedi torri gan mai dewis y preswylydd yw defnyddio bin sbwriel o'r fath.

5.2.2 Whilfiniau

Caniateir whilfiniau a brynwyd yn breifat gan y preswylydd ar gyfer storio bagiau ond ar y diwrnod casglu, rhaid i'r bagiau hyn gael eu tynnu allan gan y preswylydd a'u gosod yn y pwynt casglu arferol wrth ymyl y ffordd. Ni fydd criwiau gwastraff gweddilliol ac ailgylchu

yn gwagio bagiau o whilfiniau ar sail iechyd a diogelwch. Bydd sticer yn cael ei roi ar y bin a bydd cofnod yn cael ei wneud.

Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau sy'n defnyddio whilfiniau, ond mae'r rhain yn cael eu prynu i gadw at Safonau Prydain sy'n cyd-fynd â'r teclyn codi ar y cerbydau sbwriel ac ailgylchu. Mae'r arferion gwaith sy'n defnyddio'r biniau hyn yn destun asesiad risg iechyd a diogelwch cadarn a systemau gwaith diogel i ganiatáu i griwiau casglu ymgymryd â chasgliadau'n ddiogel o'r whilfiniau a ddarperir gan yr Awdurdod. Nid oes gan yr Awdurdod ffordd o bennu safonau biniau a brynwyd yn breifat ac felly ni fyddwn yn casglu o'r cynwysyddion hyn.

6. Casglu a Rhoi Gwastraff Allan

Mae'r holl gynwysyddion yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor. Mae preswylwyr yn gyfrifol am storio, cadw marcio (i gynorthwyo adnabod) a glanhau unrhyw gynwysyddion gwastraff a ddarperir gan y Cyngor. Rhaid cyflwyno'r holl gynwysyddion yn gywir wrth ymyl y ffordd i'w casglu a dim ond deunyddiau o gynwysyddion a gymeradwyir gan Gyngor Sir Caerfyrddin fydd yn cael eu casglu. Bydd gan bob preswylydd hawl i gael y cynwysyddion canlynol am ddim.

Mae'r casgliadau'n gweithredu **o ddydd Llun i ddydd Gwener, 6am – 2pm** ac eithrio Gwyliau Banc. Rhoddir gwybod i breswylwyr am unrhyw wyliau banc lle mae casgliadau'n digwydd neu lle mae'r diwrnod casglu'n newid drwy amrywiaeth o gyfryngau, o leiaf bythefnos cyn y newidiadau. Mae casgliadau gwastraff swmpus yn gweithredu drwy system archebu, ac yn digwydd rhwng 6am a 2pm.

Rhaid rhoi gwastraff allan ar ôl 6pm y noson cynt, neu cyn 6am ar y diwrnod casglu.

Os bydd gwastraff yn cael ei roi allan ar ôl yr amser dynodedig a bod y cerbyd gwastraff/ailgylchu wedi mynd heibio cyn i'r preswylydd roi'r gwastraff yn y man casglu, ni ystyrir bod y gwastraff heb ei gasglu. Rhaid i'r preswylydd gadw'r gwastraff o fewn ffiniau ei eiddo tan y casgliad nesaf, neu fynd ag ef i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref leol.

Mae'r awdurdod yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol i bob cartref ac felly, mae'n disgwyl safon uchel o wasanaeth cwsmeriaid gan yr holl griwiau casglu. Pan ofynnir iddynt, bydd y criwiau casglu yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth casglu gwastraff i'r cyhoedd pan fo'n bosibl, neu'n cyfeirio unrhyw wybodaeth ychwanegol at oruchwylydd a fydd yn cysylltu â'r tîm perthnasol.

Bydd criwiau ailgylchu/sbwriel yn dychwelyd cynwysyddion sydd wedi'u gwagio mor agos â phosibl at y man casglu ac yn osgoi rhwystro unrhyw fynediad i eiddo. Byddant yn ymdrechu i gau caeadau cynwysyddion ac yn ystyried unrhyw amodau lle byddai angen rhoi cynwysyddion mewn lleoliadau amgen i osgoi difrod, sicrhau iechyd a diogelwch cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd neu leihau'r risg o finiau'n cael eu colli neu eu difrodi oherwydd amodau tywydd gwael. Lle bo hynny'n briodol, bydd gollyngiadau a achosir wrth gasglu yn cael eu glanhau gan griwiau yn ystod eu rowndiau. Os oes angen glanhau ychwanegol, bydd cais yn cael ei wneud i'r gwasanaeth Glanhau.

Rhaid cyflwyno gwastraff yn y cynwysyddion cywir, a bennir gan y cyngor. Bydd gwastraff a roddir allan yn y cynhwysydd anghywir yn cael ei adael heb ei gasglu bydd cofnod yn cael ei wneud yn erbyn yr eiddo. Bydd sticer/tag yn cael ei roi ar y cynhwysydd a bydd cofnod o hyn yn cael ei gadw. Bydd hyn yn dechrau proses addysg a gorfodi gynhwysfawr i gynorthwyo preswylwyr i gyfrannu'n llawn at y cynllun ailgylchu.

Bydd gollyngiadau sy'n digwydd achos bod y gwastraff wedi'i roi allan yn rhy gynnar neu wastraff sydd wedi'i halogi yn cael eu hadrodd i'r Wardeniaid Gwastraff ac yn dilyn y broses Addysg a Gorfodi yn unol ag Atodiad 2.

Bydd criwiau yn gwrtais bob amser a byddant yn adrodd am unrhyw gam-drin geiriol neu ymddygiad gwael gan y cyhoedd tuag atynt. Bydd ffilmiau digidol, o gamerâu ar y cerbydau casglu, yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw hawliadau neu anghydfodau sy'n ymwneud â pheidio â chasglu neu ddifrodi cerbydau neu eiddo eraill.

7. Casgliadau Gwastraff Swmpus (Codir tâl)

Codir tâl am gasglu eitemau gwastraff swmpus, sy'n cael ei hysbysebu ar wefan yr Awdurdod. Gellir trefnu i gasglu eitemau gwastraff swmpus ar-lein neu dros y ffôn. Ni chynhigir gostyngiadau ar gyfer y gwasanaeth hwn.

7.1.1 Gwneud Cais am Gasgliad Gwastraff Swmpus

Gall preswylwyr gofrestru ar gyfer casgliadau ar-lein drwy system archebu'r Cyngor, trwy'r nodwedd Fy Nghyfrif, neu drwy ffonio 01267 234567. Gall preswylwyr ddewis apwyntiad o fewn cyfnod o chwe wythnos, neu gael yr apwyntiad nesaf sydd ar gael a chael eu hysbysu o'r diwrnod casglu.

Gellir talu drwy gerdyn debyd neu gredyd naill ai yn ystod yr alwad neu ar-lein drwy Fy Nghyfrif. Ar ôl i'r taliad gael ei awdurdodi, bydd y casgliad yn cael ei gadarnhau.

Fel rhan o gasgliad gwastraff swmpus byddwn yn casglu hyd at dair eitem. Os oes llai na thair eitem i ddechrau, mae'n bosibl ychwanegu eitemau ychwanegol yn ddiweddarach. Hefyd, gellir newid neu ganslo eitemau hyd at dri diwrnod gwaith cyn y casgliad.

Mae gwastraff swmpus fel arfer yn cael ei gasglu o'r man casglu arferol wrth ymyl y ffordd fel bod cerbydau casglu'n gallu ei gyrraedd. Rhaid i bob eitem fod yn hawdd ei chyrraedd yn y lleoliad hwn. Ni chaniateir i griwiau casglu fynd i mewn i unrhyw adeilad neu strwythur ar yr eiddo gan gynnwys gerddi.

Mewn rhai achosion, gellir cytuno ar bwynt casglu amgen oherwydd gofynion gweithredol, ceisiadau am gymorth i godi gwastraff, neu'r math o wastraff. Pan fo hyn yn berthnasol, bydd swyddog y Cyngor yn cynnal asesiad iechyd a diogelwch cyn ei gymeradwyo.

Os oes angen cymorth ar breswylydd (e.e. cymorth i godi gwastraff), neu ei fod yn gofyn am leoliad casglu gwahanol oherwydd cyfyngiadau mynediad neu le, gellir gohirio'r archeb nes bod ymweliad ac asesiad risg wedi'u cwblhau. Bydd y tîm gwasanaethau gwastraff yn cadarnhau a yw'r trefniadau casglu arfaethedig yn ddiogel ac yn addas.

Rhaid i breswylwyr dynnu'r seliau o unrhyw oergelloedd neu rewgelloedd i atal y risg o ddal. Ni fydd unrhyw eitemau ychwanegol yn cael eu casglu oni bai eu bod wedi'u datgan ymlaen llaw a bod taliad wedi'i wneud.

Gellir anfon eitemau gwastraff swmpus a gesglir wrth ymyl y ffordd i gyfleuster atgyweirio Eto a'u hadnewyddu i'w gwerthu yn siop Eto.

7.1.2 Cyfnewid, Canslo ac Ad-daliadau

Os bydd y casgliad yn cael ei ganslo o leiaf tri diwrnod gwaith llawn cyn y diwrnod casglu, bydd preswylwyr yn cael ad-daliad llawn. Ni roddir ad-daliad os bydd y casgliad yn cael ei ganslo ar ôl y cyfnod hwn.

Os am unrhyw reswm nad yw'r gweithredwyr casglu yn gallu casglu'r eitemau, er enghraifft oherwydd tywydd garw, bydd y gweithredwyr yn ceisio casglu'r eitemau cyn gynted â phosibl.

Ni roddir ad-daliad am y canlynol:

- Os nad yw'r eitemau wedi'u rhoi allan ar yr amser casglu
- Os nad yw'r eitemau wedi'u rhoi yn y man casglu y cytunwyd arno;
- Os yw'r eitemau anghywir wedi'u rhoi allan i'w casglu, neu fod gormod o eitemau wedi'u rhoi allan;
- Os yw'r eitemau wedi gosod yn y fath fodd fel nad yw'r gweithwyr yn gallu casglu'r eitemau yn ddiogel;
- Os yw'r eiddo wedi'i ddiogelu ac ni all y gweithredwyr casglu gael mynediad; neu
- Os yw cwmni/ffynhonnell arall wedi casglu'r eitemau.

8. Casgliadau â Chymorth

Mae preswylwyr nad ydynt yn gallu rhoi eu gwastraff allan wrth ymyl y ffordd oherwydd problem iechyd neu wendid corfforol dros dro neu barhaol, a lle nad oes neb i helpu yn yr aelwyd, yn gallu gwneud cais am gasgliadau â chymorth. Nid yw'r gwasanaeth ar gael os oes preswylwyr abl yn byw yn yr un cyfeiriad.

Gall preswylwyr gofrestru ar gyfer casgliadau â chymorth ar-lein drwy fynd i: https://www.sirgar.llyw.cymru/gwasanaethaur-cyngor/ailgylchu-biniau-a-sbwriel/ailgylchu-casgliadau-biniau/casgliad-gwastraff-a-chymorth/, mynd i'r canolfannau Hwb neu ffonio'r ganolfan gyswllt ar 01267 234567.

Bydd angen cadarnhad o'r canlynol wrth wneud cais am gasgliadau â chymorth:

- Y rheswm dros y cais;
- Manylion unrhyw un arall sy'n byw yn yr un aelwyd;
- Rhesymau pam nad yw unrhyw breswylwyr eraill yn gallu symud y gwastraff a/neu ddeunyddiau ailgylchu;
- Copïau o ddogfennau i gadarnhau prawf cymhwysedd
- Cadarnhad o ba wasanaethau y mae angen cymorth ar yr ymgeisydd ar eu cyfer

Bydd angen i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen ar-lein i wirio cymhwysedd ar gyfer y cynllun. Ar ôl i'r ffurflen gael ei chwblhau gyda chopïau o ddogfennau a ddarperir fel prawf cymhwysedd, bydd y gwasanaethau gwastraff yn trefnu ymweliad â'r eiddo i gynnal asesiad risg i bennu dichonoldeb y casgliad a lleoliad arfaethedig y man casglu newydd.

Bydd preswylwyr sy'n gofyn am gasgliadau â chymorth dros dro, er enghraifft yn ystod cyfnod gwella ar ôl llawdriniaeth, yn cytuno ar gyfnod o amser i gael cymorth a bydd y cymorth yn dod i ben yn awtomatig ar ôl y dyddiad hwnnw. Os bydd angen cymorth ar breswylwyr am gyfnod hirach na'r hyn y cytunwyd arno'n wreiddiol, bydd angen iddynt wneud cais eto.

Ar ôl i'r casgliadau â chymorth gael eu sefydlu, bydd y man casglu'n cael ei gadarnhau gyda'r criwiau priodol.

Dylai preswylwyr ganiatáu hyd at deg diwrnod gwaith i ni gysylltu i gadarnhau'r casgliad.

Dylai preswylwyr roi gwybod i'r cyngor os nad oes angen y gwasanaeth arnynt neu aelod o'r teulu mwyach neu os oes angen iddynt ddiwygio eu manylion cyswllt.

Bydd adolygiad o'r holl aelwydydd ar y gwasanaeth casgliadau â chymorth yn cael ei gynnal bob dwy flynedd i sicrhau bod y rhai sydd angen y gwasanaeth o hyd yn derbyn y gwasanaeth, a bod y cofnodion mwyaf diweddar yn cael eu cadw.

9. Casgliadau dros Wyliau Banc

Mae gwastraff yn cynyddu yn ystod cyfnodau'r Nadolig, y Flwyddyn Newydd a gwyliau banc a dylid rheoli hyn drwy ddefnyddio'r cynllun ailgylchu sydd ar gael i bob preswylydd domestig.

Dylid rhoi'r holl ddeunyddiau ailgylchu a dderbynnir naill ai yn y bagiau ailgylchu cymysg (bagiau glas) neu'r sachau a gesglir ar wahân (Glasbrint) ochr yn ochr â'r cadi gwastraff bwyd i'w ailgylchu bob wythnos.

Dylid cyflwyno poteli gwydr a gwydr bob tair wythnos i'r preswylwyr hynny ar y cynllun ailgylchu cymysg a phob wythnos i'r preswylwyr hynny ar y cynllun ailgylchu ar wahân. Gellir mynd â gwydr a photeli dros ben i'r safle casglu agosaf neu'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref agosaf.

Dros Wyliau Banc, bydd angen i breswylwyr wirio eu casgliadau i sicrhau eu bod yn rhoi eu gwastraff allan ar y diwrnodau casglu cywir. Gellir cyflwyno nifer diderfyn o fagiau glas i'w casglu. Mae angen i breswylwyr y mae eu deunyddiau ailgylchu'n cael eu casglu ar wahân sicrhau bod bocsys cardbord yn cael eu torri i lawr a'u rhoi yn y sach cardbord a'u cadw'n sych.

10. Gwastraff heb ei gasglu ac aflonyddwch

Os na fydd eich bag du, deunydd ailgylchu, gwydr, bwyd, cynnyrch hylendid amsugnol neu wastraff gardd heb ei gasglu, bydd ein criwiau'n ymdrechu i ddychwelyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w gasglu. Os nad yw ein criwiau'n gallu ei gasglu o fewn yr amserlen hon oherwydd capasiti, bydd eich eitemau'n cael eu casglu ar eich diwrnod casglu nesaf a drefnwyd. Bydd unrhyw aflonyddwch ar ein gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi ar dudalen tarfu ar casgliadau'r cyngor ar ein gwefan. Dylai preswylwyr wirio'r dudalen tarfu ar gasgliadau yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol a bod y preswylydd yn sicr na chasglwyd y gwastraff ar ôl ei roi allan, gall roi gwybod am wastraff sydd heb ei gasglu naill ai ar-lein neu drwy ffonio'r ganolfan gyswllt ar 01267 234567.

Gall preswylwyr roi gwybod am wastraff sydd heb ei gasglu rhwng **2pm ar y diwrnod casglu a drefnwyd** hyd at **4pm y diwrnod gwaith nesaf**. Ar ôl adrodd, byddwn yn ymdrechu i ddychwelyd a chasglu'r gwastraff o fewn **dau ddiwrnod gwaith**.

Er enghraifft:

- Os bydd eich gwastraff heb ei gasglu ar **ddydd Llun**, gallwch roi gwybod am hyn rhwng **2pm dydd Llun** a **4pm dydd Mawrth**.
- Os bydd eich gwastraff heb ei gasglu ar **ddydd Gwener**, gallwch roi gwybod am hyn rhwng **2pm dydd Gwener** a **4pm dydd Llun**. Wedyn byddwn yn trefnu i'w gasglu o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Mae'r dull hwn yn rhoi diwrnod gwaith llawn i breswylwyr roi gwybod bod y gwastraff heb ei gasglu, gan helpu i sicrhau ein bod yn gallu ymchwilio i'r holl achosion a'u datrys yn brydlon.

Mae'n bosibl y bydd achosion o wastraff heb ei gasglu dro ar ôl tro yn cael eu croes-wirio yn erbyn data olrhain a ffilm camerâu'r cerbydau casglu. Os bydd y data olrhain neu'r ffilm camera yn dangos bod ein cerbyd wedi pasio'r eiddo, ac nad oedd gwastraff wedi'i roi allan wrth ymyl y ffordd, ni fydd hyn yn cael ei ystyried yn gasgliad a fethwyd, ac ni fydd ein criwiau'n dychwelyd i gasglu'r gwastraff. Bydd y preswylydd yn cael cyngor yn unol â hynny.

11. Datblygiadau tai a ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu

Wrth i breswylwyr symud i'w cartref newydd ar unrhyw ddatblygiad newydd, mae'n bosibl y bydd rhan o'r safle heb ei orffen wrth i waith datblygu neu adeiladu gael ei wneud fesul cam. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o beiriannau trwm, storio deunyddiau adeiladu, cerbydau ar y ffyrdd, codi sgaffaldiau, ardaloedd heriau caled peryglus, a llawer o beryglon baglu. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ffyrdd a phalmentydd heb eu cwblhau, gorchuddion tyllau wedi'u codi, gylïau/hydrantau wedi'u codi, ac ymylon cyrbau wedi'u codi. Er mwyn sicrhau diogelwch ein staff a'n cerbydau, bydd ein cerbydau a'n criwiau ond yn mynd i ddatblygiad pan fydd yr holl waith adeiladu wedi'u cwblhau'n llawn neu os bydd cytundeb wedi'i wneud gyda'r datblygwr am fynediad graddol ar ddatblygiadau mwy a allai gymryd sawl blwyddyn.

Yn ystod y datblygiad, cytunir ar drefniadau ar gyfer casgliadau gwastraff gyda'r datblygwr. Y datblygwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gwastraff y preswylwyr hynny sy'n cael casgliadau â chymorth, neu sydd â gwendidau corfforol/anableddau, yn cael ei roi yn y man casglu ar ran y preswylydd.

Dim ond ar ôl derbyn cytundeb adran 38 (sy'n ofynnol gan yr Adran Priffyrdd), neu lythyr indemnio gan y datblygwr, y bydd asesiad risg yn cael ei gynnal i asesu a fydd mynediad i'r datblygiad i gasglu gwastraff yn bosibl naill ai yn ystod y gwaith datblygu neu ar ôl ei gwblhau.

11.1.1. Lonydd Cefn a Lonydd sy'n Bell o Ben yr Heol

11.1.2 Lonydd a heolydd preifat

Mae rhai eiddo yn y Sir wedi'u lleoli ar hyd lonydd cul preifat neu draciau gwledig nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr Adran Priffyrdd. Mae gan y rhain y potensial i ddifrodi cerbydau gwastraff ac ailgylchu'r cyngor ac maent yn peri peryglon i'n criwiau. Mae'r peryglon yn cynnwys tyllau, llystyfiant neu ganghennau sy'n gordyfu a cheblau trydan/ffôn. Gall ceir wedi'u parcio rwystro mynediad llawn ac efallai y bydd troeon cas a dim cylch troi i'n cerbydau. Bydd yr Awdurdod yn gofyn i breswylwyr roi eu gwastraff allan yn y lleoliad agosaf at y prif rwydwaith priffyrdd lle gall cerbydau casglu deithio'n ddiogel. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd asesiad risg yn pennu'r man casglu dynodedig i'r eiddo ei ddefnyddio. Gall y mannau casglu hyn wasanaethu un neu fwy o eiddo yn yr ardal gyfagos.

Os nad yw preswylydd sy'n byw ar lôn breifat yn gallu rhoi ei wastraff yn y man casglu dynodedig oherwydd gwendid corfforol neu anabledd a'i fod yn derbyn casgliadau â chymorth, bydd asesiad risg yn cael ei gynnal i bennu'r modd mwyaf effeithlon o gasglu'r gwastraff. Mewn unrhyw amgylchiadau, byddai angen i'r tirfeddiannwr fodloni canllawiau penodol a gyhoeddir gan y gwasanaeth gwastraff ynghylch wynebau ffyrdd a gynhelir, ardal, droi ddigonol i gerbyd a nodir gan yr Awdurdod, goleuadau a thorri llystyfiant a/neu ganghennau sy'n gordyfu yn rheolaidd, fel gofyniad sylfaenol.

11.1.3 Lonydd a Gynhelir gan yr Adran Priffyrdd

Bydd y criwiau casglu yn recordio drwy gopi caled neu drwy ddull electronig unrhyw ddiffygion ar y priffyrdd sydd angen rhoi sylw iddynt ac a allai eu rhwystro neu eu hatal rhag cwblhau eu rowndiau casglu. Bydd y wybodaeth ar gael i oruchwylwyr ardal ac aelodau staff eraill. Rhoddir gwybod am unrhyw heolydd, pontydd neu ordyfiant i'r Adran Priffyrdd.

11.1.4 Ceir Wedi'u Parcio

Weithiau gall ceir neu gerbydau eraill wedi'u parcio rwystro neu atal casgliadau gan gerbyd casglu dynodedig. Bydd y criw casglu yn ymdrechu i ddychwelyd yn ddiweddarach os byddant yn dod ar draws cerbyd sy'n eu hatal rhag mynd i heol/stryd/lôn i gasglu o aelwydydd. Os na fydd y criw yn gallu casglu'r gwastraff o hyd, efallai y byddant yn rhoi sticer ar y cerbyd i esbonio nad oeddent yn gallu cael mynediad i gasglu o breswylwyr.

12. Amgylchiadau Arbennig – eithriadau

12.1.1 12.1.1 Teuluoedd Mawr a Phreswylwyr ag anghenion meddygol
Gall aelwydydd o chwech neu fwy o breswylwyr sy'n byw o fewn ffiniau'r un eiddo (nid fflatiau neu dai amlfeddiannaeth) a'r aelwydydd hynny sydd ag anghenion meddygol/salwch sy'n cynhyrchu swm mwy na'r cyfartaledd o wastraff cartref, gael bagiau ailgylchu/bagiau gwastraff bwyd ychwanegol a rhoi un bag gwastraff gweddilliol ychwanegol i'w gasglu. Mae'r eithriad hwn yn amodol ar gydymffurfiaeth lawn â'r cynllun ailgylchu perthnasol gan y preswylydd ac adolygiad gan yr Awdurdod.

Gall preswylwyr sy'n bodloni'r meini prawf wneud cais ar-lein a byddant yn derbyn sticeri pinc y gellir eu rhoi ar eu bag ychwanegol i ddangos i'r criw casglu eu bod wedi gofyn yn swyddogol ac wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer yr eithriad. Mae un sticer cyfan i'w ddefnyddio ar gyfer y lwfans bag ychwanegol, ni fydd unrhyw sticer rhannol nac unrhyw hysbysiad arall yn cael ei gydnabod ac ni fydd y bag sy'n arddangos hysbysiad anhysbys o'r fath yn cael ei gasglu.

Os rhoddir y deunyddiau anghywir allan i'w gasglu, bydd y broses addysg a gorfodi yn dechrau.

12.1.2 Lludw Gweddillion Tân
Caniateir i breswylwyr sy'n cynhyrchu gwastraff lludw o danau tanwydd solet roi nifer diderfyn o fagiau gwastraff gweddilliol allan i'w gasglu. Rhaid cymysgu lludw â'r gwastraff domestig cyffredinol, a rhaid i breswylwyr sicrhau nad yw'r bagiau yn mynd yn rhy drwm achos y lludw. Bydd preswylwyr yn cael cyflenwad deuddeg mis o sticeri ac ar ôl hynny mae'n rhaid iddynt wneud cais eto. Oherwydd pwysau clincer a lludw, rhaid rhannu'r deunydd rhwng sawl bag i leihau straen ar y bagiau a'r criwiau. Bydd preswylwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer sticeri ychwanegol ar gyfer lludw gweddillion tân yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd.

12.1.3 Gwaredu gwastraff anifeiliaid anwes a gwastraff hylendid benywaidd
Rhaid i wastraff anifeiliaid anwes a gwastraff hylendid benywaidd gael ei roi o fewn dau fag a'i gymysgu â gwastraff domestig arall yn y bag du gweddilliol. **Nid oes unrhyw lwfans ychwanegol ar gyfer y math hwn o wastraff mewn bagiau du.** Gellir mynd ag unrhyw ddeunydd gwelyau anifeiliaid anwes tafladwy neu wasarn cathod dros ben i ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref, a rhaid iddynt hefyd gael eu roi mewn dau fag.

Gall unrhyw wastraff bwyd anifeiliaid anwes fynd i mewn i'r bin bwyd.

13. Bagiau/Sachau Wedi'u Halogi, Defnydd Anghywir o Gynwysyddion a Rhoi Gwastraff Allan ar y Diwrnod Anghywir

Dim ond yr eitemau cywir ddylai gael eu rhoi yn y cynwysyddion ailgylchu neu sbwriel perthnasol. Mae pob cynhwysydd wedi'i labelu'n glir gyda'r deunydd y gall ei

gynnwys ac mae hyn yn cyd-fynd â Chwestiynau Cyffredin cynhwysfawr ac A-Y o ailgylchu ar ein gwefan.

Bydd defnydd anghywir o gynwysyddion fel defnyddio whilfiniau sydd wedi'u prynu'n breifat neu fagiau rhy fawr yn golygu na fydd eich gwastraff yn cael ei gasglu. Ni fydd deunydd gweddilliol a deunydd ailgylchu wedi'u rhoi allan ar y diwrnod anghywir yn cael eu casglu.

Os caiff gwastraff ei roi allan yn rhy gynnar (heb gyfarwydded penodol yr Awdurdod) a'i fod yn achosi sbwriel, mae'n bosibl y bydd yr aelwyd sy'n gyfrifol yn destun ein proses addysg a gorfodi. Os oes gwastraff heb ei gasglu gan ein criwiau a'u bod wedi rhoi sticer arno, rhaid i'r preswylydd symud y gwastraff a'i roi o fewn ffiniau'r eiddo i atal gwastraff rhag mynd i'r amgylchedd ehangach, a delio â'r gwastraff yn briodol.

13.1 Y Broses Addysg a Gorfodi

Bydd yr Awdurdod yn y lle cyntaf yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth ymhlith preswylwyr am y gofynion i ailgylchu a gwaredu gwastraff yn gywir ac yn y cynwysyddion cywir. Bydd mesurau gorfodi yn cael ei gweithredu ar gyfer yr aelwydydd a'r personau hynny sydd wedi derbyn addysg ac arweiniad blaenorol, sydd wedyn yn peidio â chydymffurfio.

Bydd ein staff yn dilyn proses addysg a gorfodi gynhwysfawr er mwyn meithrin newid ymddygiad a chadw at weithdrefnau casglu gwastraff yr Awdurdod (Atodiad 2). Bydd hyn yn berthnasol i bob casgliad gwastraff o dŷ o dŷ a'r rhai mewn mannau casglu cymunedol. Mae gan y broses ddau lwybr gorfodi, ar gyfer eiddo unigol ac ar gyfer mannau casglu cymunedol

I ddechrau bydd criwiau'n rhoi sticer ar fagiau sy'n dangos pa reol sydd wedi'i thorri. Wedyn bydd llythyr cychwynnol yn cael ei anfon. Fodd bynnag, os bydd unrhyw achosion pellach o dorri'r rheolau bydd warden gwastraff a/neu Ymgynghorydd Ailgylchu Cymunedol yn ymweld â'r preswylydd. Os bydd y preswylydd yn parhau i beidio â chydymffurfio â cheisiadau ac arweiniad a roddir gan swyddogion, gall hyn arwain at hysbysiadau adran 46, hysbysiadau cosb benodedig neu achos llys.

Os bydd aelwydydd yn rhannu man casglu dynodedig, naill ai mewn ardal gasglu swyddogol heb gynhwysydd ychwanegol neu mewn lleoliad lle mae whilfin neu fyncer mawr wedi'i ddarparu gan yr awdurdod i gadw gwastraff domestig sawl aelwyd, bydd staff gwastraff yn nodi'r rhai nad ydynt yn safleoedd swyddogol ac yn trefnu i'w gwaredu. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i breswylwyr lleol yng nghyffiniau'r man casglu a byddant yn cael eu hannog i ddefnyddio eu gwasanaeth casglu o dŷ i dŷ.

Ar gyfer mannau gasglu a rennir, bydd gamddefnyddio'r cynwysyddion yn arwain at ymweliad safle a llythyrau at yr holl breswylwyr sy'n defnyddio'r cynwysyddion. Gall camddefnyddio cynwysyddion yn dilyn hynny arwain at nodi'r aelwyd unigol a chymryd camau trwy'r broses addysg a gorfodi, neu drwy ysgrifennu at yr holl bartïon sy'n defnyddio'r man casglu.

14. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Mae pedair Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Sir Gaerfyrddin wedi'u lleoli yn:

- Trostre, Llanelli
- Nant-y-caws, Caerfyrddin
- Wern-ddu, ger Rhydaman
- Hendy-gwyn ar Daf

Mae'r safleoedd hyn at ddefnydd preswylwyr Sir Gaerfyrddin ar gyfer gwaredu gwastraff domestig yn unig. Mae gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn ffinio â chanolfannau Trostre, Wern-ddu a Nant-y-caws sy'n gallu derbyn gwastraff masnachol am ffi.

Mae holl oriau agor y safleoedd wedi'u rhestru ar wefan y Cyngor gan gynnwys y diwrnodau hynny pan fydd safleoedd ar gau.

Er mwyn defnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, mae angen y canlynol:

- Prawf o breswyliaeth
- Hawlen os nodir bod angen un ar y cerbyd

14.1 Prawf o breswyliaeth

14.1.1 Bydd gofyn i unrhyw berson sy'n ymweld â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Sir Gaerfyrddin ddangos prawf o breswyliaeth pan ofynnir amdano gan staff y safle

14.1.2 Mae'r mathau o brawf o breswyliaeth a dderbynnir yn cynnwys eitemau megis trwydded yrru, bil y dreth gyngor neu fil cyfleustodau diweddar (dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf) sy'n dangos cyfeiriad Sir Gaerfyrddin.

14.1.3 Mae amgylchiadau lliniarol yn cynnwys y preswylwyr hynny sy'n talu treth gyngor CSC ond sydd â chyfeiriadau post y tu allan i'r sir.
Gellir delio â'r rhain drwy drafod gyda'r swyddogion

14.1.4 Ni fydd y rhai nad ydynt yn gallu darparu prawf o breswyliaeth yn cael mynd mewn i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

14.2 Cynllun hawlenni

Cyflwynwyd cynllun hawlenni ar gyfer preswylwyr ym mis Mehefin 2019.

Mae hwn yn gais ar-lein gyda phrawf o breswyliaeth a dogfennau perchnogaeth/prydles. Gellir dod o hyd i geisiadau am hawlenni'r cyngor hefyd drwy fynd i: Hawlenni canolfan ailgylchu - Cyngor Sir Caerfyrddin.

Rhaid i'r cerbyd sy'n gwneud cais am hawlen fod yn gysylltiedig â chyfeiriad cartref y preswylydd yn Sir Gaerfyrddin drwy'r dystiolaeth ganlynol:

- Prawf o breswyliaeth trwy fil y dreth gyngor, neu fil cyfleustodau diweddar neu drwydded yrru

- Dogfen gofrestru V5C a llythyr â phennawd y cwmni sydd wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan gyflogwr sy'n datgan bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion personol
-

- Manylion prydles ar bapur pennawd sy'n dangos cyfeiriad preswyl

Rhaid lanlwytho'r rhain fel rhan o'r broses gymeradwyo. I'r preswylwyr hynny sydd heb gyfrifiadur, gellir gwneud cais drwy drefnu apwyntiad ymlaen llaw gyda Cwm Environmental Ltd.

Rhoddir 12 tocyn i ymgeiswyr llwyddiannus i'w defnyddio mewn cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyhoeddi'r tocyn. Gellir adnewyddu hawlenni ar ôl iddynt ddod i ben. Gellir gweld y meini prawf ar gyfer hawlenni cerbydau gan gynnwys dogfen ganllaw cerbydau d rwy fynd i (Hawlenni canolfan ailgylchu - Cyngor Sir Caerfyrddin)

Ar gyfer preswylwyr sy'n llogi fan (nid oes angen arwyddion ar y cerbyd) ar sail tymor byr, bydd ganddynt fynediad i'r Ganolfan Ailgylchu os yw'r cytundeb llogi yn dri diwrnod neu lai a dangosir y cytundeb llogi a'r prawf o breswyliaeth ar y safle. Uchafswm maint y cerbyd a ganiateir ar y safle o dan y trefniant hwn yw 7.5 tunnell.

14.3 Trelars
Dim ond hyd at uchafswm hyd y gwely o 2.44 metr (8 troedfedd) y caniateir trelars, waeth beth yw nifer yr echelau. Bydd trelars a ddefnyddir gan gerbydau penodol yn destun amodau hawlenni yn unol â'r canllawiau cerbydau Hawlenni canolfan ailgylchu - Cyngor Sir Caerfyrddin.

14.4 Didoli bagiau du
Rhaid i breswylwyr ddidoli'r holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu oddi wrth y deunyddiau na ellir eu hailgylchu cyn iddynt gyrraedd y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Ar ôl cyrraedd, rhaid rhoi'r **holl** fagiau du yn y mannau didoli bagiau du a rhaid i'r preswylydd ddidoli unrhyw ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu i'r cynwysyddion ailgylchu perthnasol.

Dim ond eitemau na ellir eu hailgylchu sy'n gallu aros yn y bag gwastraff gweddilliol. Rhaid i ysgarthion anifeiliaid anwes neu wasarn/padiau anymatal anifeiliaid anwes sydd wedi'u halogi gael eu rhoi mewn dau fag tryloyw cyn eu rhoi yn y bag du gweddilliol.

Bydd preswylydd yn cael yr opsiwn i ddidoli eu gwastraff yn y man didoli bagiau du neu fynd ag ef adref i'w ddidoli. Mae'r holl ddidoli i'w wneud gan y **preswylydd**, gall staff ar y safle ddarparu arweiniad ac offer i gynorthwyo'r preswylydd ond ni fyddant yn cynorthwyo i ddidoli. Ni chaniateir waredu eitemau y gellir eu hailgylchu i'r sgipiau gwastraff gweddilliol.

Bydd unrhyw ymddygiad ymosodol tuag at staff y safle sy'n gofyn am ddidoli bagiau du yn cael ei adrodd i'r awdurdodau perthnasol. Ystyrir bod unrhyw un sy'n gadael gwastraff bag du heb ei ddidoli neu unrhyw eitemau eraill mewn Canolfan Ailgylchu neu'n agos ati, wedi cyflawni'r trosedd o 'dipio anghyfreithlon' yn unol ag adran 34 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a bydd yn destun polisi gorfodi'r cyngor.

14.5 Ailgylchu bagiau/sachau yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
Gall preswylwyr gael gwared ar fagiau glas dros ben sy'n cynnwys eitemau ailgylchu mewn sgipiau pwrpasol. Bydd whilfiniau yn cael eu darparu ar gyfer deunydd ailgylchu yn yr ardaloedd casglu ar wahân (Glasbrint).

Bydd y sgip bagiau glas yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac os bydd y cyngor yn gofyn am gael gwared ar y gwasanaeth hwn, bydd yn rhoi gwybod i breswylwyr gan roi rhybudd digonol, trwy ei lwyfannau cyfryngau digidol ac arwyddion ymlaen llaw yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Dylai bagiau/sachau sy'n cynnwys deunydd ailgylchu o gasgliadau o dŷ i dŷ gynnwys deunyddiau glân a sych sy'n addas i'w hailgylchu yn unig. Gall staff y safle ofyn i breswylwyr fynd â deunyddiau adref os ydynt o'r farn eu bod wedi'u halogi â deunyddiau eraill.

14.6 Plastrfwrdd ac Asbestos
Mae plastrfwrdd wedi'i wahardd o safleoedd tirlenwi oherwydd y mwyn gypswm sy'n cynhyrchu hydrogen sylffid (arogl wyau drwg) wrth ddadelfennu. Ni ddylid ei roi yn y sgipiau gweddilliol ar y safle ond mewn cynwysyddion plastrfwrdd pwrpasol. Mae **cyfyngiad o 3 bag 60 litr o blastrfwrdd fesul mis** yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Ni chaniateir asbestos glas a brown (Crociolite ac Amosite) yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae angen iddynt gael eu casglu, eu trin a'u gwaredu'n arbenigol. Gellir mynd ag asbestos wedi'i fondio â sment (Chrysotile) i unrhyw un o'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac **mae cyfyngiad o 3 bag 60 litr fesul blwyddyn**. Rhaid i'r asbestos gael ei roi mewn dau fag a'r bagiau wedi'u selio. Gellir mynd â symiau o blastrfwrdd ac asbestos sy'n fwy na'r symiau a nodwyd, gan gynnwys taflenni o asbestos, i Nant-y-caws, a thalu ffi briodol i weithredwr y safle.

14.7 Oergelloedd a Rhewgelloedd
Gall preswylwyr gael gwared ar hyd at 1 oergell, rhewgell, neu oerydd gwin (gan gynnwys oergelloedd/rhewgelloedd domestig Americanaidd a rhewgelloedd cist domestig) fesul ymweliad. Diben hyn yw sicrhau mai dim ond offer domestig sy'n cael dod i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a sicrhau bod casgliadau o'r unedau hyn yn cael eu cynnal fel nad ydynt yn fwy na'r capasiti prosesu.

Ni chaniateir oergelloedd, rhewgelloedd neu oeryddion gwin masnachol yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Rhaid i oergelloedd fod yn lân ac ni ddylent

gynnwys unrhyw fwyd, hylifau na chynhyrchion meddyginiaethol. Dylid tynnu silffoedd gwydr neu eu tapio y tu mewn i'r oergell i atal torri.

14.8 Gwastraff Peryglus a Thrydanol

Rhaid gwaredu plaladdwyr, chwynladdwyr, cemegau ffotograffiaeth a deunyddiau peryglus eraill sy'n debygol o gael eu canfod mewn garejys a siediau o fewn cynhwysydd wedi'i selio a'u labelu'n glir. Gellir mynd â'r deunydd hwn i unrhyw un o'r pedwar Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref gydag **uchafswm o 5 litr fesul ymweliad**. Dylid hysbysu staff y safle eich bod yn dymuno gwaredu'r gwastraff hwn a bydd preswylwyr yn cael eu cyfeirio i'r pwynt gwaredu cywir.

Mae gan fatris gwastraff (domestig a cheir), ac olew injan gynwysyddion pwrpasol ar bob safle Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae angen rhoi gwastraff trydanol y tu allan i'r cynhwysydd perthnasol a dylent gynnwys y ceblau a'r plygiau trydan (os ydynt yn rhan o'r uned). Bydd yr eitemau hyn wedyn yn cael eu symud i'r cynwysyddion perthnasol gan staff ar y safle gan nad yw preswylwyr yn cael mynd i mewn i'r cynwysyddion batris, deunyddiau peryglus neu wastraff trydanol.

14.9 Gwastraff na ellir ei dderbyn

Nid yw'r deunyddiau canlynol yn cael eu derbyn yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

- Asbestos glas/brown
- Rhannau o injan neu gorff car gan gynnwys seddi car
- Tanciau olew
- Unrhyw eitemau eraill y gall gweithredwyr y safle eu gwrthod ar sail Iechyd a Diogelwch neu gydymffurfio â thrwydded.
- Teiars a photeli nwy yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Wern-ddu oherwydd amodau trwydded.
- Unrhyw wastraff masnachol (ac eithrio deunyddiau o dan adran 6.10)

14.10 Elusennau a sefydliadau di-elw

Bydd angen i unrhyw elusen gofrestredig neu sefydliad di-elw sy'n defnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref i waredu neu ailgylchu gwastraff gysylltu ag adran gwastraff yr awdurdod lleol i gofrestru eu manylion cyn defnyddio unrhyw un o'r canolfannau ailgylchu. Rhaid darparu'r canlynol:

- Rhif elusen gofrestredig neu bapur pennawd y cwmni sy'n dangos statws di-elw
- Rhif cofrestru a gwneuthuriad y cerbyd sy'n cludo gwastraff i'r safle
- Dyddiad yr ymweliad ac enw'r safle
- Disgrifiad o'r deunyddiau sy'n cael eu gwaredu
- 3 diwrnod gwaith o rybudd o'r ymweliad arfaethedig drwy e-bostio: ENVHWRCChanges@sirgar.gov.uk

Bydd yr amodau gwaredu canlynol yn berthnasol ym mhob canolfan ailgylchu:

- Bydd angen gwahanu deunyddiau gymaint â phosibl, ac ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau cyn dod i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

- Bydd gwaredu deunyddiau y gellir eu hailgylchu neu eu compostio yn rhad ac am ddim fesul ymweliad.
- Gellir gwaredu gwastraff bagiau du gweddilliol unwaith y mis a bydd cyfyngiad o 3 bag 60 litr safonol fesul ymweliad.
- Codir tâl am gradd caled, rwbel ac unrhyw ddeunyddiau adeiladu eraill a bydd angen iddynt fynd dros y bont bwyso yn Nant-y-caws, yn unol ag oriau agor y cyfleuster.
- Os bydd gwastraff yn cael ei gasglu gan elusen lle mae'n derbyn arian i'w waredu, yna bydd yn rhaid dargyfeirio'r deunydd hwn i orsaf drosglwyddo neu gyfleuster gwastraff arall a thalu'r ffi waredu priodol.

14.11 Eithriadau
Gall aelodau o'r cyhoedd y mae eu perthynas wedi marw neu sydd wedi symud yn barhaol i gartref gofal lleol, ond y mae ei eiddo yn Sir Gaerfyrddin, ddefnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gyfer ailgylchu neu waredu eitemau o'r eiddo.

Er mwyn defnyddio'r safleoedd, rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol i ENVHRWCChanges@sirgar.gov.uk a rhoi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd cyn defnyddio'r safle.

- Dogfen sy'n dangos cyfeiriad Sir Gaerfyrddin, megis bil y dreth gyngor cyfredol, bil cyfleustodau diweddar (o fewn 3 mis) neu lythyr profiant gan gyfreithiwr neu lythyr gan gartref gofal sy'n dangos bod y person yn breswylydd llawn amser.
- Enw a chyfeiriad llawn y person sy'n gwneud cais a'i berthynas â'r preswylydd
- Gwneuthuriad, model a rhif cofrestru'r cerbyd a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y Ganolfan Ailgylchu
- Enw'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref i'w defnyddio a'r dyddiadau gofynnol.

Gellir defnyddio hyd at uchafswm o 3 diwrnod yn olynol fesul cais. Os bydd angen mwy na 3 diwrnod yn olynol, bydd rhaid gwneud cais newydd.

RHAID i unrhyw un sy'n gwaredu gwastraff preswylydd sydd wedi marw neu sydd wedi mynd i ofal hirdymor sicrhau bod cynifer â phosibl o'r eitemau yn cael eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio. Bydd gwaredu mewn sgipiau gwastraff gweddilliol yn cael ei nodi a'r eithriad yn cael ei ddileu os nad oes tystiolaeth o eitemau yn cael eu hailgylchu.

14.12 Mannau Rhoi Eitemau
Mae pum man rhoi eitemau, pedwar ym mhob un o'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac un yng Nghanolfan Eto. Darperir y rhain i'r cyhoedd roi eitemau gwastraff, i'w gwerthu yng Nghanolfan Eto ac unrhyw siop Eto arall o fewn yr Awdurdod. Rhaid i'r eitemau a roddir fod mewn cyflwr da ac yn lân. Os oes difrod arwynebol neu ychydig iawn o ddifrod i eitem, gellir ei rhoi hefyd gan y bydd yn cael ei hatgyweirio. Ni ellir rhoi deunyddiau peryglus, fflamadwy a ffrwydrol.

14.13 Cymorth gan Staff Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
Ni all staff Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref dynnu eitemau gwastraff o gerbydau preswylwyr oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch ac atebolrwydd. Gall preswylydd ofyn am gymorth gydag eitem drom, ar ôl ei symud o'i gerbyd ac efallai y gofynnir iddo adael yr eitem ar y llawr ger y cynhwysydd perthnasol i staff y safle ei gwaredu. Dylai preswylwyr â gwendid corfforol neu anabledd sicrhau bod person abl gyda nhw i helpu i godi'r eitemau gwastraff.

15. Safleoedd sy'n destun Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a chyfleusterau llety gwyliau eraill sy'n cael eu rhentu er budd ariannol.

15.1 Llety gwyliau ac Airbnb

Ni fydd safleoedd a restrir o dan Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 neu unrhyw safleoedd eraill sy'n rhentu rhan o'u cwrtil neu eu cwrtil cyfan neu eiddo eraill er budd ariannol yn casgliad domestig p'un a ydynt yn talu'r dreth gyngor (gan gynnwys y rhai sy'n talu cyfraddau premiwm) neu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ai peidio. Mae angen i adeiladau o'r fath wneud eu trefniadau eu hunain gyda chontractwr gwastraff i gasglu eu gwastraff, neu gall y cyngor wneud trefniadau gyda chontractwr am ffi ychwanegol.

Bydd adeiladau sy'n cael eu meddiannu ar sail dymhorol yn unig a lle mae'r preswylwyr yn byw mewn cyfeiriad gwahanol am ran o'r flwyddyn hefyd yn cael eu trin fel rhai masnachol.

Bydd y safleoedd hynny sy'n cael eu defnyddio at ddibenion preswyl yn unig trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ail gartrefi, nad ydynt yn cael eu rhentu er budd ariannol a lle mae'r dreth gyngor yn daladwy, yn cael casgliad domestig. Gall casgliad domestig yn y safleoedd hyn fod trwy gasgliadau wrth ymyl y ffordd neu fannau casglu dynodedig a fydd yn cael eu penderfynu gan swyddog o'r cyngor.

Mae gwastraff safleoedd teithwyr a sipsiwn lle mae'r preswylwyr yn byw trwy gydol y flwyddyn yn cael ei ystyried yn wastraff domestig. Ni fydd gwersylloedd teithwyr dros dro neu unrhyw safleoedd nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio dilys neu esemptiad i'w defnyddio fel preswylfa yn cael gwasanaeth casglu gwastraff.

Gall y Cyngor gadw'r hawl i ofyn am daliad gan berchnogion neu gwmnïau rheoli am ddarparu cynwysyddion whilfiniau ar gyfer y safleoedd hynny lle mae preswylwyr yn byw trwy gydol y flwyddyn a dyma eu prif breswylfa. Bydd gwastraff preswylfeydd tymhorol yn cael ei ystyried yn wastraff masnachol.

15.2 Mannau addoli a mynwentydd

Mae mannau addoli yn destun Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 waeth beth yw maint y sefydliad. Bydd gwastraff o fynwentydd sydd â llai na 2500 o leiniau bedd, ac sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain neu o fewn tiroedd man addoli, yn cael y gwasanaeth gwastraff domestig

15.3 Elusennau

Newidiodd Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 y mecanwaith codi tâl er mwyn gallu codi tâl am gasglu ac am waredu gwastraff sefydliadau elusennol. Eglurwyd taw'r unig eithriad oedd elusennau cofrestredig oedd yn cael eitemau yn rhodd gan y cyhoedd, e.e. dillad, llestri, celfi ac ati. Roedd y math hwn o wastraff yn dal i gael ei ystyried yn

wastraff cartrefi ac felly ni fydd y costau gwaredu yn cael eu cynnwys yn y tâl masnachol yn achos y cleientiaid hyn yn unig.

Codir y gyfradd fasnachol lawn ar elusennau cofrestredig eraill am gasglu ac am waredu gwastraff gan nad oeddynt yn cael eitemau yn rhodd gan y cyhoedd.

15.4 Cartrefi Plant, Cartrefi gofal a chyfleusterau byw â chymorth

Bydd unrhyw safle sy'n gartref gofal, yn gartref plant neu'n safle byw â chymorth yn cael eu hystyried yn fasnachol a disgwylir iddynt ddefnyddio darparwr allanol i gasglu eu gwastraff.

16. Telerau ac Amodau ac Atodiadau

16.1 Telerau ac Amodau Gwastraff Gardd - https://www.sirgar.llyw.cymru/gwasanaethaur-cyngor/ailgylchu-biniau-a-sbwriel/gwastraff-gardd/y-telerau-ar-amodau-wastraff-gardd/
16.2 Y Broses Addysg a Gorfodi

Atodiad 1

Telerau ac Amodau Cynnyrch Hylendid Amsugnol

- Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer preswylwyr Sir Gaerfyrddin yn unig ac at ddefnydd domestig yn unig. Rydych yn cadarnhau nad yw'r gwastraff yn dod o fusnes masnachol, e.e. cartref gofal preswyl, neu feithrinfa/gwarchodwr plant
- Dim ond yr eitemau a restrir isod y byddwch yn eu rhoi yn eich bagiau porffor. Lle bynnag y bo modd, dylid gwagio unrhyw eitemau, cyn eu gosod yn y bag:
    - Padelli gwelyau tafladwy a leininau, padiau anymatal, padiau cadair a gwely
    - Bagiau stoma/colostomi, bagiau cathetr a photeli wrin
    - Menig plastig a ffedogau tafladwy
    - Cewynnau gan gynnwys unrhyw fagiau a weips
    - Tiwbiau Bwydo
- Ni fyddwch yn rhoi gwastraff anifeiliaid anwes na chynnyrch misglwyf yn eich bagiau porffor. Dylech roi'r rhain mewn dau fag o fewn eich bagiau du.
- Dim ond y bagiau porffor a ddarperir y byddwch yn eu defnyddio. Rhowch eich bagiau allan i'w casglu yn eich man casglu arferol ar gyfer bagiau du/glas. Pan fydd angen mwy arnoch, bydd angen i chi ganiatáu digon o amser i'w dosbarthu, sef 10 diwrnod gwaith.
- Byddwch yn rhoi eich bagiau allan ar y diwrnod cywir, yn barod i'w casglu o 6am. Gallwch osod eich bagiau allan unrhyw bryd ar ôl 6pm ar y noson cyn hynny. Peidiwch â rhoi gwybod am fagiau sydd heb eu casglu tan ar ôl 2pm.
- Mae hyn yn sicrhau bod digon o amser gan ein tîm i gasglu eich bagiau, gall hyn amrywio ar gyfer pob casgliad yn dibynnu ar draffig, tywydd, cerbydau'n torri i lawr ac ati.
- Os ydych wedi gwneud cais am gasgliadau ar gyfer cewynnau plant, dim ond o dan un cyfeiriad yn Sir Gaerfyrddin y mae'r plentyn/plant wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Os yw perthynas yn gofalu am y plentyn/plant mewn cyfeiriad arall, gallwch roi bag porffor iddo i roi unrhyw gewynnau, ond rhaid rhoi'r bag yn ôl i chi er mwyn i chi ei roi allan yn barod i'w gasglu o'ch eiddo.
- Efallai y bydd angen asesiad ar rai eiddo i weld sut y gallwn helpu o ran cynnig y gwasanaeth. Os felly, ni fydd angen i chi fod yn bresennol. Rydych yn deall na fydd y gwasanaeth yn dechrau hyd nes ein bod wedi cwblhau'r asesiad.
- Byddwch yn cysylltu â ni os bydd angen i chi atal eich casgliadau dros dro, neu os nad oes angen casgliad arnoch mwyach.
- Os na fyddwch yn rhoi gwastraff allan i'w gasglu ar gyfer tri chasgliad yn olynol, byddwn yn cysylltu â chi i weld a oes angen y gwasanaeth arnoch o hyd. Bydd adolygiad o gwsmeriaid hefyd yn cael ei gynnal bob dwy flynedd.
- Byddwch yn rhoi gwybod i ni os byddwch yn symud tŷ neu os bydd eich manylion cyswllt yn newid.
- Os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid/oedi yn y gwasanaeth ar gyfer eich ffrind/perthynas. Rydych yn cytuno i roi gwybod iddynt am y newidiadau. Os nad chi yw'r prif gyswllt ar gyfer y casgliad hwn mwyach neu os bydd eich manylion cyswllt yn newid, rhowch wybod i ni.

- Er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon, o bryd i'w gilydd efallai y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau iddo. Er enghraifft, pa mor aml y byddwn yn casglu eich bagiau, o ble y byddwn yn eu casglu a/neu eich diwrnod casglu. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newid

ATODIAD 2

Education and Enforcement Process Map

Crew find a contaminated receptacle, sticker/tag - tick reason and leave bag/caddy at kerbside.

↓

Crew record the address/details etc… on the debrief form and hand it in to the supervisor

↓

The supervisor checks the information on the debrief forms, and adds any omitted information i.e. house name/number/road then sends the form on to the hub

↗ Hub checks the status on APP. If this is the 1st offence, they log the address on APP and issue a Stage 1 letter.

→ If the recipient contacts the Hub after receiving the Stage 1 letter, any conversation/communication between the Hub and the recipient to be logged in notes in actions on APP.

Stage 1

↘ If the hub establish that the address has had a Stage 1 previously and within the last year, it moves to a Stage 2, and the case is sent on to the Wardens via APP. If It's been over a year the cases start again from Stage 1

↓

****

The allocated Warden makes enquiries with Council Tax to establish who the resident responsible is. Then once identified, we have a name for the S46

→ The Warden calls at the address with the Section 46 letter, notice and Appendix to hand deliver.

→ If the contaminated receptacles are still at kerbside – search receptacles to gather evidence for possible impending FPN.

↗ If no reply at the address, we post the Section 46 and accompanying paperwork through the letter box.

↘ If the resident is home, we hand them the S46, speak to them about the contamination, educate, and explain the process and that the next step would be an FPN if they don't comply.

→ Wardens to update APP with all the information from the visit and close the job down.

Stage 2

****

If the residents continue to do something wrong, the crew sticker/tag and the debrief goes to Hub – the hub checks the history and passes the APP job on to the Wardens and notifies them of the newly opened case.

↗ Within 21 days appeal → Wardens to gather evidence during the 21 days, take photos, and make notes on APP of any misconduct.

↘ Outside 21 days appeal → Wardens to gather evidence and make a statement – and pass on all documentation to the enforcement team.

Stage 3